RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD MARK YOUNG I'W YSTYRIED GAN Y CYNGOR LLAWN:

“Bod swyddogion y Cyngor yn gweithio’n rhagweithiol gydag asiantaethau perthnasol tuag at Rhyl yn cael y Faner Las eiconig sy’n un o wobrau gwirfoddol mwyaf adnabyddus y byd ar gyfer traethau, marinas a chychod twristiaeth cynaliadwy. Er mwyn bod yn gymwys am y Faner Las, rhaid bodloni a chynnal cyfres o feini prawf amgylcheddol, addysgol, diogelwch a hygyrchedd llym.

DS:
Yn ganolog i ddelfrydau’r rhaglen Baner Las yw’r nod o gysylltu’r cyhoedd gyda’r hyn sydd o’u hamgylch a’u hannog i ddysgu mwy am eu hamgylchedd. Felly, rhaid cynnig a hyrwyddo gweithgareddau addysg amgylcheddol yn ogystal ag arddangos gwybodaeth yn barhaol sy’n berthnasol i’r safle o ran bioamrywiaeth, ecosystemau a ffenomena amgylcheddol.